# GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
# Y FANYLEB PERSON

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Iechyd a Diogelwch (Rheoli Risg Gweithredol) |
| **TEITL Y SWYDD** | Swyddog Iechyd Diogelwch a Lles |
| **RHIF Y SWYDD** | NU270 |
| **GRADD** | Graddfa 8 |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub |

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir** ac a nodir â seren***** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | **Cymhwyster Rheoli Diogelwch IOSH neu gymhwyster cyfwerth** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais*** |
| | Tystysgrif Gyffredinol NEBOSH neu gymhwyster cyfwerth | Dymunol | Ffurflen Gais |
| | Diploma NEBOSH neu Gymhwyster cyfwerth | Dymunol | Ffurflen Gais |
| | Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant / neu gymhwyster addysgu cyfatebol neu fod yn barod i weithio tuag ato | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| | Cymhwyster Hyfforddi Hyfforddwyr neu'n barod i weithio tuag ato | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| | Aelodaeth IOSH | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth/ Profiad** | **Profiad o weithio o fewn rôl Iechyd a Diogelwch*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais/Proses Ddethol*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Profiad o ddatblygu a chyflwyno cyflwyniadau a / neu sesiynau hyfforddi mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch**<br><br>**Profiad o gynnal Archwiliadau / Archwiliadau Safle Iechyd a Diogelwch ac ysgrifennu adroddiadau**<br><br>Profiad o gefnogi adrannau sefydliadol a / neu staff, ymgorffori prosesau, gweithdrefnau neu dasgau newydd<br><br>Profiad o baratoi a chynhyrchu ystod o ystadegau ac adroddiadau Iechyd a Diogelwch<br><br>Gwybodaeth ymarferol o Becynnau Microsoft Office, e.e. Outlook, Word, Excel ac ati.<br><br>Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol<br><br>Dymunol | **Ffurflen Gais/Proses Ddethol***<br><br>**Ffurflen Gais/Proses Ddethol***<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol<br><br>Y Broses Ddethol<br><br>Y Broses Ddethol<br><br>Ymgeisio |
| **Arddull Bersonol** | Bod yn rhagweithiol wrth gefnogi newid, ac â'r gallu i addasu dulliau i gwrdd â gofynion newidiol<br><br>**Y gallu i weithio mewn cydymffurfiaeth lwyr â pholisïau gweithredol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir***<br><br>Bod yn rhagweithiol wrth gefnogi newid, ac â'r gallu i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo effeithiolrwydd sefydliadol gwell | Hanfodol<br><br>**Hanfodol***<br><br>Hanfodol | Y Broses Ddethol<br><br>**Ffurflen Gais/Proses Ddethol***<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol |
| **Rhyngbersonol** | **Y gallu i arwain, cynnwys ac ysgogi eraill o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.**<br><br>Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Yr ymrwymiad i a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion, timau ac eraill i wella effeithiolrwydd gweithredol | **Hanfodol***<br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol | **Ffurflen Gais/Proses Ddethol***<br><br>Y Broses Ddethol<br><br>Y Broses Ddethol |
| **Tasg** | **Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth fyw o'r amgylchfyd i hyrwyddo gweithio diogel ac effeithiol***<br><br>**Y gallu i arwain eraill i gyflawni rhagoriaeth drwy sefydlu, cynnal a rheoli anghenion perfformiad** | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen Gais/Proses Ddethol***<br><br>**Ffurflen Gais/Proses Ddethol*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol | Hanfodol | Y Broses Ddethol |

**Mae’r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i’r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio’n annibynnol.**

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG